Parti Cerdd Dant

Ynys Llanddwyn

Mi hoffwn fyw ar Ynys Llanddwyn
mewn bwthyn gwyn uwchben y lli
gwylio adar y môr bob bore
a dy gael di gyda mi.

Mae'r môr y las rownd Ynys Llanddwyn
ac ynddo fe ymolchwn i
lle mae'r adar yn pysgota
o dwêd y doi di gyda mi.

Mae eglwys Dwynwen ar Ynys Llanddwyn
ac ynddi fe weddïwn i
gofyn iddi Santes Cariadon
am dy gael di gyda mi.

A phan ddaw'r nos ar Ynys Llanddwyn
pan fydd yr haul a'r môr yn cwrdd
eisteddaf wrth y tân yn fy mwthyn
efallai nad af byth i ffwrdd.